



Llywodraeth Cymru  
Welsh Government

# Hyrwyddo cydraddoldeb LHDTC+

PHOTO REDACTED DUE TO THIRD PARTY RIGHTS OR OTHER LEGAL ISSUES

## Cynllun Gweithredu LHDTC+ Cymru

Gorffennaf 2021



# Version Cynllun Gweithredu LHDTTC+ Drafft

## Rhagair y Gweinidogion

Mae gan bawb yr hawl i fod yn ddiogel, i fod yn nhw eu hunain ac i fyw bywydau heb gael eu gwahaniaethu. Mae cydraddoldeb a chynhwysiant yn werthoedd craidd i Lywodraeth Cymru ac mae ein hymrwymiad i gyfiawnder cymdeithasol yn golygu bod rhaid inni wneud popeth o fewn ein gallu i werthfawrogi amrywiaeth ac i ddiogelu a hyrwyddo hawliau dynol yng Nghymru. Wrth inni ddod allan o bandemig Covid-19, mae'r gwerthoedd hyn yn fwy canolog fyth i greu Cymru decach, fwy ffyniannus a mwy cyfartal. Mae cymorth i bobl lesbiaidd, hoyw, deurywiol, trawsrywiol a chwiar/cwestiynu (LHDTTC+) (gyda'r + yn cynrychioli hunaniaethau eraill gan gynnwys pobl anneuaid) yn ganolog i'r ymrwymiad hwn.

Rydym am i Gymru fod y genedl, lle mae pawb yn teimlo'n ddiogel i fod yn nhw eu hunain, i fod yn agored am eu cyfeiriadedd rhywiol, eu hunaniaeth rhywedd, eu mynegiant rhywedd a'u nodweddion rhyw gartref, dan amgylchiadau hamdden neu yn y gwaith, heb deimlo dan fygythiad.

Yn ystod yr ychydig flynyddoedd diwethaf yn unig, rydym wedi gwneud cynnydd rhyfeddol. Rydym wedi bwrw ymlaen â'r gwaith o ddiwygio'r cwricwlwm, gan ymgorffori addysg sy'n cynnwys pobl LHDTTC+. Sefydlwyd gwasanaeth hunaniaeth rhywedd i helpu ein teulu traws i fod yn nhw eu hunain. Ni oedd y genedl gyntaf yn y DU i gynnig PReP (Proffylaxis Cyn-gysylltiad, cyffur gwrth-HIV) am ddim gan y Gwasanaeth Iechyd Gwladol (GIG). Rydym wedi cefnogi Pride Cymru, a gorymdeithiodd ein Prif Weinidog ar flaen yr orymdaith. Yn ystod Covid-19 sefydlwyd grant lleoliadau LHDTTC+ pwrpasol a gwnaethom alluogi artistiaid drag i gael mynediad at ein cronfa gweithwyr llawrydd.

Fodd bynnag, rydym yn cydnabod bod rhagor i'w wneud. Gwyddom bod pobl LHDTTC+ yng Nghymru yn wynebu trafferthion gwirioneddol o ran anfantais, anghydraddoldeb a gwahaniaethu. Rydym wedi bod yn gweithio'n agos gyda chynrychiolwyr o gymunedau LHDTTC+ i ddatblygu'r cynllun gweithredu hwn. Ym mis Ionawr 2021, sefydlwyd Panel Arbenigol Annibynnol yn cynnwys unigolion â lluo o brofiadau bywyd yn y gymuned ac yn y byd proffesiynol, sefydliadol, academaidd a phersonol, i helpu i nodi'r camau nesaf ar gyfer hyrwyddo cydraddoldeb LHDTTC+. Ym mis Mawrth, cyflwynodd y panel hwn ei adroddiad gan gynnwys cyfres gadarn o argymhellion sydd wedi bod yn sail i'r Cynllun Gweithredu hwn. Nid oes gennym unrhyw amheuaeth nad yw'r Cynllun Gweithredu LHDTTC+ drafft yn Gynllun gwell nag y byddem wedi'i lunio heb gyngor, arweiniad ac argymhellion y panel a'r unigolion a gyfrannodd eu profiadau bywyd.

Nod y Cynllun Gweithredu LHDTTC+ uchelgeisiol a thraws-lywodraethol hwn yw mynd i'r afael â'r anghydraddoldebau strwythurol a brofir ar hyn o bryd gan gymunedau LHDTTC+, herio achosion o wahaniaethu a chreu cymdeithas lle mae

pobl LHDTC+ yn ddiogel i fyw a charu yn agored ac yn rhydd fel nhw eu hunain. Dyma ein cynllun cyntaf i ganolbwyntio ar ymateb i anghenion penodol ac amrywiaeth ein cymunedau LHDTC+, ynghyd â'r ffactorau sy'n eu gwneud yn agored i niwed. Am y tro cyntaf, rydym wedi casglu ein hymrwymiaidau presennol ac wedi nodi sut rydym yn bwriadu hyrwyddo cydraddoldeb a chynhwysiant LHDTC+, er mwyn gwneud gwahaniaeth gwirioneddol i gyfleoedd bywyd, rhagolygon, hawliau a chanlyniadau pobl LHDTC+ ar gyfer y dyfodol.

Gwyddom fod materion sy'n wynebu'r gymuned LHDTC+ yn aml yn rhai a chanddynt sawl dimensiwn: dyna pam mae'r cynllun gweithredu hwn yn canolbwyntio ar groestoriadedd, ffocws na welwyd ei debyg o'r blaen. Mae cydraddoldeb ar gyfer pawb yng Nghymru ac yn golygu pawb yng Nghymru, gyda neb yn cael ai adael ar ôl.



**Mark Drakeford AS**  
**Y Prif Weinidog**



**Jane Hutt AS**  
**Y Gweinidog Cyfiawnder  
Cymdeithasol**



**Hannah Blythyn**  
**Y Dirprwy Weinidog Partneriaeth Gymdeithasol**

## Cyflwyniad

Mae Llywodraeth Cymru wedi ymrwymo i ddiogelu hawliau dynol i bawb – rydym am alluogi pob person sy'n LHDTTC+ yng Nghymru fyw bywydau mor llawn â phosibl – i fod yn iach, yn hapus ac yn ddiogel. Rydym wedi gwneud llawer o gynnydd yn y tri degawd diwethaf o ran gwella cydraddoldeb a hawliau dynol ar gyfer pobl lesbiaidd, hoyw, deurywiol, trawsrywiol a chwiar/cwestiynu (LHDTTC+) yng Nghymru a ledled y DU. Mae newid deddfwriaethol wedi golygu bod ysgolion, sefydliadau a gwasanaethau cyhoeddus bellach yn gwneud llawer mwy i hyrwyddo'r hawliau hyn a mynd i'r afael ag achosion o fwlio a gwahaniaethu pobl LHDTTC+. Mae hawliau priodi a mabwysiadu cyfartal bellach yn realiti i lawer ac mae Adran 28 (cyfraith a basiwyd yn 1988 yn atal cynghorau ac ysgolion rhag “hyrwyddo addysgu bod cyfunrhywioldeb yn dderbyniol fel perthynas deuluol honedig) wedi'i diddymu. Rydym wedi gweld newid enfawr mewn agweddau cadarnhaol tuag at gymunedau LHDTTC+ ac mewn perthynas â chynnwys pobl LHDTTC+.

Er bod y newidiadau hyn i'w dathlu, rydym hefyd wedi gweld cynnydd mewn agweddau gwrth-LHD a gwrth-draws ac agweddau gelyniaethus mewn sawl rhan o'r byd. Mewn llawer o wledydd, mae hawliau dynol pobl LHDTTC+ yn wynebu'r un bygythiadau neu rai newydd. Rhaid inni gydnabod bod anfanteision, anghydraddoldeb ac achosion o wahaniaethu yn parhau i fod yn realiti i lawer o bobl LHDTTC+ sy'n byw yng Nghymru hefyd. Mae llawer yn parhau i wynebu rhwystrau sylweddol rhag cymryd rhan lawn a chyfartal yng nghymdeithas Cymru. Mewn arolwg diweddar<sup>1</sup>, canfu Stonewall Cymru fod 78 y cant o bobl LHDTTC+ yng Nghymru wedi osgoi bod yn agored am eu cyfeiriadedd rhywiol neu eu hunaniaeth rhywedd, rhag ofn i eraill ymateb mewn ffordd negyddol. Hefyd, mae 46 y cant o bobl LHDTTC+ yng Nghymru wedi profi achos o aflonyddu geiriol yn y flwyddyn ddiwethaf. Mae canfyddiadau o'r fath yn dangos y profiadau gofidus y mae pobl LHDTTC+ yn parhau i'w cael yng Nghymru heddiw. Maent hefyd yn dangos y gwaith sydd gennym i'w wneud o hyd i sicrhau cydraddoldeb, fel y gall pobl deimlo'n hapus ac yn ddiogel yn bod yn nhw eu hunain.

Hyd yn oed cyn pandemig byd-eang, roeddem yn gwybod fod cymunedau LHDTTC+ yn fwy tebygol o brofi anghydraddoldeb ar draws ystod o feysydd canlyniadau. Er enghraifft, mae pobl LHDTTC+ yn fwy tebygol na'u cymheiriaid heterorywiol o wneud y canlynol:

- Nodi lefelau boddhad bywyd isel
- Profi mynediad gwael at wasanaethau gofal iechyd

---

<sup>1</sup> Comisiynwyd Stonewall Cymru gan Lywodraeth Cymru i lunio a chyhoeddi arolwg yn ystod haf 2020, i gasglu ystadegau am brofiadau pobl LHDTTC+ yng Nghymru. Roedd yr arolwg hwn hefyd yn gyfle i gasglu argymhellion unigolion ar gyfer Cynllun Gweithredu LHDTTC+ i'r dyfodol. Mae'r argymhellion hyn wedi'u hadlewyrchu neu wedi'u cynnwys yn uniongyrchol yn argymhellion y Panel Arbenigol. Cafodd yr arolwg ei hyrwyddo ar nifer o sianeli cyfryngau cymdeithasol gan sefydliadau ledled Cymru (yn cynnwys sefydliadau LHDTTC+ a sefydliadau nad ydynt yn rhai LHDTTC+). Cafodd yr arolwg 532 o ymatebion.

- Dioddef o fwlio, achosion o wahaniaethu a throsteddau casineb yn yr ysgol, yn y gweithle neu yn eu cymunedau
- Yfed alcohol, ysmegu ac ymwneud â chamddefnyddio sylweddau
- Dioddef o iechyd meddwl gwael, gan gynnwys unigrwydd, iselder a hunanladdiad

Caiff yr anfanteision hyn eu dwysáu ymhellach pan fydd rhai anghenion a ffactorau sy'n gwneud pobl LHDTTC+ yn agored i niwed yn gorgyffwrdd â nodweddion gwarchoddedig eraill gan gynnwys oedran, hil, rhywedd, crefydd ac anabled<sup>2</sup>. Mae pandemig Covid-19 wedi amlygu a gwaethygu'r anghydraddoldeb strwythurol a wynebir gan y cymunedau sydd wedi'u hymyleiddio fwyaf a'r rhai mwyaf difreintiedig yng Nghymru<sup>3</sup>. Ar gyfer pobl LHDTTC+ yn benodol, mae adroddiad Panel yr Arbenigwyr wedi tynnu sylw at bryderon parhaus mewn perthynas ag addysg, diogelwch personol a chymunedol, iechyd a gofal cymdeithasol, a'r gweithle. Mae eu hadroddiad hefyd yn dangos yr angen am well cydlyniant strategol ar faterion LHDTTC+. Mae tystiolaeth ryngwladol a domestig newydd hefyd yn awgrymu bod pobl LHDTTC+ wedi wynebu rhwystrau ychwanegol wrth gael gafael ar wasanaethau gofal iechyd neu feddyginiaeth o ganlyniad i bandemig Covid-19 a'u bod mewn mwy o berygl o drais, camdriniaeth, digartrefedd, cyflogaeth is, unigedd cymdeithasol ac unigrwydd<sup>4</sup>. Mae hyn yn golygu bod pobl LHDTTC+ yn wynebu argyfwng o ran hawliau dynol ledled y byd, gan gynnwys yng Nghymru, a hynny ar raddfa eang a chynyddol. Nod y camau gweithredu yn y cynllun hwn yw mynd i'r afael â'r problemau hyn, gan nodi camau pendant i wella bywydau pobl LHDTTC+ yng Nghymru.

Gellir cymryd cynnydd yn ganiataol ond ni ddylid fyth wneud hynny ac, os yw Cymru am arwain drwy esiampl a diogelu rhyddid pobl LHDTTC+, rhyddid sydd wedi'i ennill drwy lawer o ymdrech, mae angen gwneud rhagor o waith. Mae safbwynt Llywodraeth Cymru yn glir: hawliau dynol yw hawliau LHDTTC+. Mae ein Cynllun Gweithredu LHDTTC+ drafft yn arwydd o'n hymrwymiad i barchu, diogelu a sicrhau hawliau pobl LHDTTC+ yng Nghymru. Bydd y Cynllun Gweithredu LHDTTC+ yn gweithredu fel y fframwaith cydlynol ar gyfer datblygu polisi LHDTTC+ ar draws y llywodraeth. Bydd yn nodi'r camau pendant y byddwn yn eu cymryd i wella bywydau pobl LHDTTC+, i herio achosion o wahaniaethu ac i greu cymdeithas lle mae'n ddiogel i bobl LHDTTC+ fyw a charu yn agored ac yn rhydd fel nhw eu hunain. Ategir y Cynllun gan y dull seiliedig ar hawliau a nodir gan Uchel Gomisiynydd Hawliau Dynol y Cenhedloedd Unedig<sup>5</sup> ac Arbenigwr Annibynnol y Cenhedloedd Unedig ar Gyfeiriadedd Rhywiol a Hunaniaeth Rhywedd<sup>6</sup> ac mae'n helpu i sicrhau hawliau gwarantiedig i bobl LHDTTC+ drwy'r canlynol:

<sup>2</sup> Sefydliad LHDT (2020) *Hidden Figures: The Impact of Covid-19 Pandemic on LGBT Communities in the UK*

<sup>3</sup> Senedd Cymru: y Pwyllgor Cymunedau, Cydraddoldeb a Llywodraeth Leol (2020) *Amlygu'r materion: anghydraddoldeb a'r pandemig*

<sup>4</sup> Y Comisiwn Cydraddoldeb a Hawliau Dynol (2020) *Sut mae coronafeirws wedi effeithio ar gydraddoldeb a hawliau dynol*

<sup>5</sup> [https://www.un.org/en/ga/search/view\\_doc.asp?symbol=A/HRC/29/23&referer=/english/&Lang=E](https://www.un.org/en/ga/search/view_doc.asp?symbol=A/HRC/29/23&referer=/english/&Lang=E)

<sup>6</sup> <https://www.ohchr.org/en/issues/sexualorientationgender/pages/index.aspx>

- Datganiad Cyffredinol o Hawliau Dynol
- Cyfamod Rhyngwladol ar Hawliau Economaidd, Cymdeithasol a Diwylliannol
- Cyfamod Rhyngwladol ar Hawliau Sifil a Gwleidyddol
- Confensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Wahardd Pob Math o Wahaniaethu yn erbyn Menywod
- Confensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau'r Plentyn
- Egwyddorion y Cenhedloedd Unedig ar gyfer Pobl Hŷn

Mae'r dull hwn yn sicrhau y bydd y cynllun yn gwneud cyfraniad cadarn at y ffordd y mae Llywodraeth Cymru yn cyflawni ei swyddogaethau o ran Dyletswydd Cydraddoldeb y Sector Cyhoeddus, o dan adran 149 o Ddeddf Cydraddoldeb 2010. Bydd y cynllun hwn yn cysylltu â gwaith cysylltiedig ar rywedd, anabledd, hil a nodweddion gwarchoddedig eraill o dan y Ddeddf hon. Rydym yn cydnabod yr angen i sicrhau bod ein cynlluniau gweithredu cydraddoldeb yn gweithio gyda'i gilydd. Er mai dyma'r fframwaith polisi cyntaf i ganolbwyntio ar anghenion penodol pobl LHDTC+ a'r ffactorau sy'n eu gwneud yn agored i niwed, mae'n rhan o ddull ehangach o ymdrin â chydaddoldeb prif ffrwd ac o amddiffyn hawliau dynol pawb yn well. O ganlyniad, dylid darllen y fframwaith ochr yn ochr â'n Cynllun Cydraddoldeb Strategol, y Cynllun Gweithredu Cydraddoldeb Hiliol, y Fframwaith Gweithredu ar gyfer Anabledd, a'n Cynllun Cydraddoldeb Rhwng y Rhywiau.

Mae'r Cynllun Gweithredu LHDTC+ cenedlaethol hwn wedi'i sefydlu i helpu i gydlynu camau gweithredu gan Lywodraeth Cymru ac asiantaethau eraill. Mae'r cynllun yn nodi cyfres gyffredin o gamau gweithredu i wella'r gydnabyddiaeth o bobl LHDTC+ ac mae hefyd yn cynnwys ystod eang o gamau gweithredu penodol i bolisi yn ymwneud ag addysg, gwella diogelwch, tai, iechyd a gofal cymdeithasol, a hyrwyddo cydlyniant cymunedol. Gan adeiladu ar ei gwaith ymgysylltu cadarnhaol yn ddiweddar, dylai Llywodraeth Cymru barhau i amddiffyn a hyrwyddo ar lafar hawliau ac urddas pobl draws ac anneuaid yng Nghymru fel eu bod yn chwarae rhan lawn a chyfartal ar bob lefel yn y gymdeithas. Am y tro cyntaf, rydym wedi dwyn ein hymrwymiaidau presennol ynghyd ac wedi nodi sut rydym yn bwriadu hyrwyddo cydraddoldeb a chynhwysiant LHDTC+, er mwyn gwneud gwahaniaeth gwirioneddol i gyfleoedd bywyd, rhagolygon a chanlyniadau pobl LHDTC+ heddiw ac yn y dyfodol.

## **Camau allweddol wrth ddatblygu'r Cynllun Gweithredu**

Mae Llywodraeth Cymru wedi cydweithio ag ystod eang o gynrychiolwyr o gymunedau LHDTC+ i lywio'r gwaith o ddatblygu'r Cynllun Gweithredu drafft. Yn ystod haf 2020, comisiynwyd Stonewall Cymru i gynnal ymgysylltiad cychwynnol â rhanddeiliaid i edrych pa themâu pwysig y dylid eu datblygu mewn Cynllun Gweithredu LHDTC+ newydd i Gymru. Daeth Stonewall Cymru i ddysgu am brofiadau bywyd pobl LHDTC+ drwy arolwg (dros 600 o ymatebwyr) a chyfres o grwpiau ffocws rhithiol. Roedd rhai o negeseuon allweddol yr ymgysylltiad yn canolbwyntio ar fynd i'r afael ag achosion o wahaniaethu pobl LHDTC+, gwella diogelwch a mynd i'r afael ag anghydraddoldebau iechyd, yn enwedig iechyd pobl draws.

Ym mis Tachwedd 2020, sefydlodd Llywodraeth Cymru Grŵp Cyfeirio Allanol LHDTTC+ i roi cyngor ac arweiniad, ac ym mis Ionawr 2021, sefydlwyd Panel Arbenigol Annibynnol LHDTTC+ llai o faint i adeiladu ar ymgysylltiad cychwynnol Stonewall Cymru â rhanddeiliaid, gan roi cyngor strategol ar hyrwyddo cydraddoldeb LHDTTC+ yng Nghymru. Fe wnaeth y Panel Arbenigol Annibynnol, a gadeiriwyd gan Lu Thomas, a oedd yn cynnwys pobl â llawer o brofiadau bywyd yn y gymuned ac mewn sefyllfaoedd proffesiynol, sefydliadol, academiaidd a phersonol, gyfarfod deirgwaith i egluro'r materion y mae rhaid mynd i'r afael â hwy os ydym am greu newid sylweddol a gwell canlyniadau i bob person LHDTTC+ yng Nghymru. Cafodd y panel hwn ei gefnogi gan weithdai ac is-grwpiau a oedd yn ystyried llawer o faterion yn fanylach.

Fe wnaeth Llywodraeth Cymru hefyd gomisiynu Stonewall Cymru i gynnal rhagor o sesiynau ymgysylltu â rhanddeiliaid er mwyn helpu'r Panel Arbenigol Annibynnol i ystyried profiadau croestoriadol pobl LHDTTC+. Roedd y trefniadau'n cynnwys grwpiau ffocws bwrdd crwn rhithiol (yn cynrychioli pobl ifanc LHDTTC+, pobl hŷn, pobl anabl a phobl Ddu, Asiaidd ac Ethnig Leiafrifol) a rhai trafodaethau ychwanegol gyda sefydliadau gan gynnwys TUC Cymru, WEN Cymru a Llinell Gymorth LHDT Cymru.

Cyflwynodd y Panel Arbenigol Annibynnol ei adroddiad a'i argymhellion i Jane Hutt AS, y Dirprwy Weinidog a'r Prif Chwip bryd hynny, ym mis Mawrth 2021. Roeddent yn argymhell bod y Cynllun Gweithredu LHDTTC+ yn mabwysiadu dull croestoriadol i fynd i'r afael â'r ffaith bod anfanteision a brofir gan bobl LHDTTC+ yn aml yn cyd-daro â nodweddion gwarchoddedig eraill, megis hil ac anabledd, gan ddwysáu anghydraddoldeb ac anfanteision strwythurol. O ganlyniad, mae'r cynllun Gweithredu drafft hwn yn rhoi sylw arbennig i amrywiaeth anghenion penodol pobl LHDTTC+ a'r ffactorau sy'n eu gwneud yn agored i niwed, gan gynnwys y rhai sy'n profi achosion o wahaniaethu croestoriadol (er enghraifft pobl draws a phobl anneuaidd, sydd ymhlith y grwpiau lleiaf derbynol mewn cymdeithas ac sydd fel arfer yn profi mwy o wahaniaethu a thrais nag eraill yn y cymunedau LHDTTC+).

Mae sawl dimensiwn i achosion o wahaniaethu yn aml ac yma hefyd mae'r cynllun yn mabwysiadu dull croestoriadol er mwyn paratoi'r ffordd at newidiadau cynaliadwy a pharchus mewn cymdeithas. Roedd adroddiad y Panel Arbenigol yn cynnwys cyfres o argymhellion cyffredinol yn canolbwyntio ar ymgorffori hawliau dynol mewn cyfraith ddomestig, ar gydlynu ac integreiddio cynlluniau yn strategol, ac ar hyfforddi, codi ymwybyddiaeth a meithrin gallu. Roedd yr adroddiad yn cynnwys argymhellion thematig ar gyfer ystod eang o feysydd polisi, gan gynnwys cydnabod pobl draws a phobl anneuaidd; diogelwch; cartref a chymunedau; iechyd a gofal cymdeithasol; addysg a dysgu gydol oes; gweithle a chefnogi ymateb Covid-19. Mae'r argymhellion hyn wedi bod yn sail i'r Cynllun Gweithredu drafft.

**laith:** Mae'r Panel Arbenigol wedi argymhell y dylem ddefnyddio'r acronym LHDTTC+ mewn perthynas â'r gwaith hwn. Mae'r panel a Llywodraeth Cymru yn cydnabod bod safbwyntiau a defnydd gwahanol ar draws ein cymunedau, a bod arferion yn debygol o newid eto yn y dyfodol.



## Nodau Cyffredinol

Mae'r camau cyffredinol isod yn darparu llinyn strategol a chyffredin sy'n rhedeg drwy'r camau gweithredu mwy penodol sy'n dilyn. Maent yn helpu i nodi'r materion cyffredin sydd gan gamau gweithredu yn y cynllun fel cyfanwaith.

|    | <b>Camau gweithredu</b>  |
|----|--|
| 1. | Byddwn yn gwella cydraddoldeb a hawliau dynol i bobl LHDTC+ a byddwn yn ceisio dylanwadu ar Lywodraeth y DU i gryfhau'r amddiffyniadau a gynigir i bobl draws ac anneauaid o dan y gyfraith, gan gynnwys ffoaduriaid a'r rhai sy'n ceisio lloches.   |
| 2. | Byddwn yn sicrhau bod hawliau pobl LHDTC+ yn cael eu cydnabod a'u prif ffrydio yn y sector cyhoeddus yng Nghymru.  |
| 3. | Byddwn yn sicrhau bod pob gweithiwr gwasanaeth cyhoeddus yn deall anghenion pobl LHDTC+, gan eu hannog i ymgymryd â hyfforddiant cynhwysfawr a chroestoriadol ar gydraddoldeb pan fo angen.  |
| 4. | Dylai Llywodraeth Cymru helpu i herio tybiaethau heteronormadol a cisnormadol a'i gwneud hi'n ofynnol i gyrff cyhoeddus nodi a chofnodi'n briodol hunaniaethau LHDTC+ ar y pwynt mynediad. Bydd anghenion cymunedau LHDTC+ yn weladwy wrth gynllunio gwasanaethau a dadansoddi ar lefel y boblogaeth; a byddwn yn annog dylunio gwasanaethau ar y cyd. |
| 5. | Byddwn yn gwella'r broses o gasglu data, gan gynnwys data croestoriadol, i nodi'r anghyfartalwch llesiant a'r gwahaniaethu a brofir gan ein cymunedau LHDTC+.  |
| 6. | Byddwn yn ffurfioli'r Panel Arbenigol Annibynnol i lywio, monitro a gwerthuso gweithrediad y cynllun. Byddwn yn darparu diweddariad blynyddol ar gynnydd gweithredu'r cynllun.   |

## Hawliau Dynol a Chydnabyddiaeth

Byddwn yn parhau i gefnogi pobl LHDTTC+ ac yn sicrhau ein bod yn parhau i amddiffyn a hyrwyddo ar lafar eu hawliau a'u hurddas i gymryd rhan lawn a chyfartal yng nghymdeithas Cymru. Amlygodd ymchwil a wnaed wrth baratoi'r Cynllun Gweithredu hwn bryderon gan bobl anneuaid ynghylch diffyg cydnabyddiaeth, yn strwythurol ac yn y ffordd y cawn nhw eu hadlewyrchu yng ngweithrediad gwasanaethau. Hoffai pobl draws yng Nghymru weld Llywodraeth Cymru yn mynd ymhellach na Llywodraeth San Steffan wrth ddiogelu a datblygu hawliau pobl draws.

Mae pryder penodol ynghylch parhau i ymarfer 'therapi trosi'. Rydym am i bob person LHDTTC+ gael eu trin â gwerth cyfartal, i fod yn ddiogel ac i fyw yn ddilys ac yn agored fel nhw eu hunain, a dyna pam mae'r Rhaglen Lywodraethu yn tynnu sylw at y ffaith y byddwn yn gwahardd pob agwedd ar therapi trosi LHDTTC+ o fewn ein pwerau presennol ac yn ceisio datganoli unrhyw bwerau ychwanegol angenrheidiol i'n galluogi ni i wireddu hyn. Hefyd, byddwn yn ceisio datganoli pwerau mewn perthynas â Chydnabod Rhywedd a chefnogi ein cymuned Draws.

|     | <b>Camau gweithredu</b>   |
|-----|---|
| 7.  | Parhau i amddiffyn ar lafar hawliau ac urddas pobl draws yng Nghymru fel eu bod yn chwarae rhan lawn a chyfartal yn y gymdeithas ar bob lefel.  |
| 8.  | Cydnabod pobl anneuaid mewn meysydd polisi datganoledig, gan gynnwys meysydd addysg, tai ac iechyd cyn belled ag y bo'n bosibl o dan y gyfraith.  |
| 9.  | Ceisio datganoli pwerau mewn perthynas â Chydnabod Rhywedd a chefnogi ein cymuned Draws.  |
| 10. | Defnyddio'r holl bwerau sydd ar gael i wahardd pob agwedd ar therapi trosi LHDTTC+ a cheisio datganoli unrhyw bwerau ychwanegol angenrheidiol.  |
| 11. | Archwilio ffyrdd y gall dulliau adnabod personol diangen fel enw, oedran a dynodwyr rhywedd gael eu dileu o ddogfennau, yn enwedig mewn arferion recriwtio.   |
| 12. | Helpu pobl LHDTTC+ i feithrin gwell dealltwriaeth o'u hawliau dynol, beth maent yn ei olygu, sut maent yn croesi ar draws ei gilydd, neu pan fyddant wedi eu torri, a sut i geisio unioni'r sefyllfa pan fydd hyn yn digwydd. |

## Sicrhau Diogelwch Pobl LHDTTC+

Er y bu gwelliannau mewn rhai meysydd, mae llawer o bobl LHDTTC+ yng Nghymru yn parhau i deimlo'n anniogel ac mewn perygl mawr o gael eu cam-drin neu eu gwahaniaethu<sup>7</sup>. Gyda nifer y troseddau casineb LHDTTC+ a gofnodir yn parhau i gynyddu, yn enwedig ymhlith pobl draws (mae nifer yr achosion wedi mwy na dyblu ers 2017, sy'n cyfateb i 106 y cant<sup>8</sup>), mae'n hanfodol bod y llywodraeth yn cymryd camau i fynd i'r afael â hyn a sicrhau bod pobl LHDTTC+ yng Nghymru yn ddiogel. Er bod mwyafrif y bobl LHDTTC+ yng Nghymru yn byw bywydau bodlon a chadarnhaol, rydym hefyd yn gwybod bod gormod o lawer yn ofni achosion o wahaniaethu a rhagfarn. Datgelodd y gwaith allgymorth cynhwysfawr sy'n ategu'r adroddiad hwn fod pobl LHDTTC+ yng Nghymru yn parhau i wynebu achosion o wahaniaethu yn y cartref ac yn eu cymunedau eu hunain. Nododd bron hanner y bobl a ymatebodd i'r arolwg (46 y cant) eu bod wedi wynebu aflonyddu geiriol, roedd 26 y cant wedi dioddef cam-drin neu aflonyddu ar-lein ac roedd 13 y cant wedi profi bygythiad o drais ac aflonyddu corfforol neu rywiol yn y flwyddyn ddiwethaf. Mae'r canfyddiadau hyn yn dangos faint yn fwy y mae rhaid ei wneud i sicrhau bod cartrefi a chymunedau yng Nghymru yn ddiogel i bawb. Bydd cael cymunedau diogel yn galluogi pobl LHDTTC+ i ffynnu a byw heb ofn.

|     | <b>Cam Gweithredu</b>  |
|-----|--|
| 13. | Gweithio gyda Chomisiynwyr Heddlu a Throseddu a Phrif Gwnstabiliaid i ystyried adeiladu ar y gwaith ymgysylltu parhaus sydd eisoes yn digwydd gyda chymunedau a ymleiddiwyd, er mwyn sicrhau bod eu perthynas â'r heddlu yn adlewyrchu eu hanghenion yn well. Bydd hyn yn cynnwys cymunedau LHDTTC+, cymunedau anabl a chymunedau Du, Asiaidd ac Ethnig Lleiafrifol. |
| 14. | Gweithio gyda Phrif Gwnstabiliaid a Chomisiynwyr yr Heddlu a Throseddu, ynghyd â phartneriaid cyfiawnder troseddol a chymdeithasol eraill, i adolygu pam nad oes digon o droseddau casineb LHDTTC+ yn cael eu cofnodi, gyda'r nod o weithredu i wella lefelau adrodd ymhellach.  |
| 15. | Gweithio gyda'r cwmnïau technoleg a'r platfformau cyfryngau cymdeithasol i fynd i'r afael â throseddau casineb a chamwybodaeth.  |
| 16. | Ymgysylltu ag aelodau o gymunedau LHDTTC+, cymunedau anabl a chymunedau Du, Asiaidd ac Ethnig Lleiafrifol i ddeall materion pan fo'n   |

<sup>7</sup> LHDT yng Nghymru - Troseddau Casineb a Gwahaniaethu, 2018, [https://www.stonewallcymru.org.uk/cy/system/files/lhdt\\_yng\\_nghymru\\_-\\_troseddau\\_casineb\\_stonewall\\_cymru.pdf](https://www.stonewallcymru.org.uk/cy/system/files/lhdt_yng_nghymru_-_troseddau_casineb_stonewall_cymru.pdf)

<sup>8</sup> Mae ffigurau troseddau casineb ar gael ar-lein yn: <https://www.gov.uk/government/statistics/hate-crime-england-and-wales-2017-to-2018>; <https://www.gov.uk/government/statistics/hate-crime-england-and-wales-2018-to-2019>; <https://www.gov.uk/government/statistics/hate-crime-england-and-wales-2019-to-2020>

|     |  |
|-----|--|
|     | <b>Cam Gweithredu</b>  |
|     | ymddangos bod diffyg dealltwriaeth ymhlith swyddogion sy'n trin galwadau'r heddlu a staff rheng flaen eraill. Dylai hyn wedyn lywio gwaith gyda Phrif Gwnstabiliaid i ddatblygu mewnbynnau codi ymwybyddiaeth ar faterion penodol sy'n ymwneud â throseddau casineb, hawliau dynol a sut y caiff y rhai â nodweddion gwarchoddedig eu targedu.   |
| 17. | Dylai Llywodraeth Cymru fynd ati yn benodol i dargedu trais yn erbyn menywod, cam-drin domestig a thrais rhywiol yn y gymuned LHDTC+ er mwyn gwella ei dealltwriaeth o'r rhesymau dros y cyfraddau isel o roi gwybod am achosion o'r fath ymhlith y gymuned yn y gorffennol, gan sicrhau bod pob llenyddiaeth, neges a menter codi ymwybyddiaeth yn gynhwysol a, phan fo angen, yn benodol i'r gymuned LHDTC+. Dylai'r data a gaiff eu casglu gan ddarparwyr gwasanaethau trais yn erbyn menywod, cam-drin domestig a thrais rhywiol, ynghyd â gwasanaethau proffesiynol a gwasanaethau cyhoeddus, yn cynnwys data'r heddlu, nodi achosion lle mae pobl LHDTC+ yn rhoi gwybod am y digwyddiadau hyn, ynghyd ag atgyfeiriadau, achosion ac ati. |

## Cartrefi a Chymunedau

Mae Cymru yn wlad o gymunedau, ieithoedd, hunaniaethau a diwylliannau amrywiol. Mae pobl LHDTC+ yn byw ym mhob un o'n cymunedau: o gymunedau gwledig a threfol i gymunedau ffydd, diwylliant a'r celfyddydau. Dylai pawb, sut bynnag y maent yn uniaethu neu ble bynnag y maent yn byw, allu teimlo eu bod yn perthyn i'w cymuned ac i Gymru.

|     | <b>Cam Gweithredu</b>   |
|-----|---|
| 18. | Rhoi cymorth ac adnoddau i grwpiau cymunedol a sefydliadau LHDTC+ ledled Cymru er mwyn trechu'r anghydraddoldeb rhanbarthol a brofir gan bobl wrth gael gafael ar wasanaethau. Mae hefyd angen cymryd camau ymyrryd wedi'u targedu er mwyn cynyddu nifer y gwasanaethau cymorth sydd ar gael i bobl LHDTC+ drwy gyfrwng y Gymraeg.  |
| 19. | Gweithio gyda'r sector gwaith ieuenctid i ddod o hyd i fodel ariannu cynaliadwy tymor hirach i sefydliadau, gan gynnwys yn y sector gwirfoddol, sy'n darparu cymorth i ystod eang o bobl ifanc o wahanol gefndiroedd ac sydd â gwahanol anghenion, gan gynnwys cymorth i bobl ifanc LHDTC+. Dylai strategaethau yn y dyfodol, gan gynnwys gwaith y Bwrdd Gwaith Ieuenctid Dros Dro, ystyried cydraddoldeb ac amrywiaeth i bob person ifanc.   |
| 20. | Defnyddio digwyddiadau sy'n codi ymwybyddiaeth LHDTC+ yn y calendr blyneddol, ac annog pobl i fynd iddynt, er mwyn rhoi cyfle i leisiau LHDTC+ gael eu clywed, yn enwedig lleisiau o adrannau o'r gymuned nad ydynt yn cael eu cynrychioli'n ddigonol. Mae'r rhain yn cynnwys digwyddiadau Pride, Mis Hanes LHDTC+ (Chwefror), IDAHOBIT (17 Mai), Diwrnod Rhyngwladol Pobl Anneuaidd (14 Gorffennaf), Diwrnod Dathlu Deurywioldeb (23 Medi), Diwrnod Cofio Pobl Draws (20 Tachwedd), a Diwrnod AIDS y Byd (1 Rhagfyr).<br><br>Gweithio gyda chyrrff cyhoeddus eraill i gynorthwyo pobl ddeurywiol drwy ddangos cefnogaeth iddynt, fel chwifio baner balchder deurywiol. |
| 21. | Cefnogi digwyddiadau Pride ledled Cymru drwy noddi Pride Cymru, gan sefydlu Cronfa Pride Cymru gyfan a phenodi Cydlynedd Cymru gyfan.   |
| 22. | Fel rhan o'r ymgyrch Adnewyddu Democrataidd, byddwn yn darparu mynediad at fodolau rôl amrywiol i annog pobl LHDTC+ i gymryd rhan mewn democratiaeth gan gynnwys ymgeisio am swyddi, ar bob lefel, yng Nghymru.   |
| 23. | CYNRYCHIOLAETH – Diwylliant a Chwaraeon   |

|     | <b>Cam Gweithredu</b>   |
|-----|---|
|     | <ul style="list-style-type: none"> <li>• Estyn allan at unigolion, grwpiau a chymunedau LHDTTC+ yn eu gwahodd i gefnogi'r gwaith o gynllunio a datblygu dulliau holistaidd ar draws y sectorau Diwylliant a Chwaraeon yng Nghymru, ac adeiladu ar waith cyrff cyhoeddus a gynrychiolir yn y Bartneriaeth Cydraddoldeb Cyrff Cyhoeddus.</li> <li>• Gwella cynrychiolaeth LHDTTC+ yn y sector Diwylliant a'r sector Chwaraeon yng Nghymru ar bob lefel, gan gynnwys ar lefel Bwrdd ac ar lefel y gweithlu a gwirfoddolwyr.</li> <li>• Defnyddio casgliadau cenedlaethol a lleol yn y sectorau Diwylliant a Chwaraeon yng Nghymru i ddathlu a rhannu straeon a hanesion pobl LHDTTC+, gan ddarparu cyllid pan fo hynny'n briodol.</li> <li>• Ystyried sut i roi rhagor o ffocws ar gydraddoldeb fel rhan o ddatblygu sgiliau, profiad gwaith, gwirfoddoli, mentora a chyfleoedd prentisiaeth.</li> </ul> |
| 24. | <p><b>DATHLU – Diwylliant a Chwaraeon</b></p> <ul style="list-style-type: none"> <li>• Dathlu'r cymunedau LHDTTC+ yng Nghymru drwy ddatblygu ein casgliadau cenedlaethol a lleol, gan annog cymunedau LHDTTC+ i gasglu a rhoi casgliadau i archifau ac amgueddfeydd lleol, gan ddarparu cyllid pan fo hynny'n briodol.</li> <li>• Defnyddiwch gasgliadau cenedlaethol a lleol i gefnogi gweithgarwch Pride ledled Cymru, gan gynnwys mewn digwyddiadau Pride Cymru ac yn ystod mis Pride.</li> <li>• Bydd cyrff cyhoeddus yn y sectorau Diwylliant a Chwaraeon yng Nghymru yn gweithio gydag unrhyw Gydlynnydd Pride Cymru sydd wedi'i benodi yn y dyfodol i fanteisio i'r eithaf ar gyfleoedd i ddathlu amrywiaeth.</li> </ul>   |
| 25. | <p><b>CYFRANOGIAD – Diwylliant a Chwaraeon</b></p> <ul style="list-style-type: none"> <li>• Gweithio gyda Chwaraeon Cymru a chyrff llywodraethu cenedlaethol i fynd i'r afael â chanfyddiadau'r adolygiad o Gynhwysiant Trawsrywedol mewn Chwaraeon Domestig.</li> <li>• Sicrhau bod gweithluoedd yn cael eu cynnwys ac yn ymwybodol o ddigwyddiadau a gweithgareddau ar lefel leol, ranbarthol a chenedlaethol.</li> <li>• Ystyried sut i roi rhagor o ffocws ar gydraddoldeb fel rhan o ddatblygu sgiliau, profiadau gwaith, gwirfoddoli, mentora a gweithgareddau a chyfleoedd prentisiaeth, gan ddarparu cyllid pan fo hynny'n briodol.</li> </ul>  |
| 26. | <p><b>CYDLYNIANT – Diwylliant a Chwaraeon</b></p> <ul style="list-style-type: none"> <li>• Cydweithio ar draws y sector diwylliant a'r sector chwaraeon i raeadu a rhannu arferion da a'r hyn a ddysgir. Bydd sefydliadau cenedlaethol, lleol a gwirfoddol yn gweithio'n gydlynol i ddatblygu arferion da y gellir eu rhannu'n gyflym a'u defnyddio yn ehangach fel y bo'n briodol, er mwyn sicrhau bod arferion da ar draws y sectorau yn cael eu cydnabod a'u mabwysiadu lle bynnag y bo'n briodol.</li> </ul>  |
| 27. | <p>Archwilio sut y gallwn roi cymorth i grwpiau ffydd i greu amgylcheddau agored a hygyrch i bobl LHDTTC+, ac i hyrwyddo deialog rhwng cymunedau.</p>   |

|     | <b>Cam Gweithredu</b>   |
|-----|---|
| 28. | Cryfhau cynrychiolaeth LHDTTC+ ar fforymau cydraddoldeb.  |
| 29. | Sicrhau bod gwasanaethau digartrefedd yn mynd ati mewn ffordd sensitif i nodi cyfeiriadedd rhywiol a statws traws pobl er mwyn creu llwybrau priodol a diogel.  |
| 30. | Gwerthuso prosiectau LHDTTC+ penodol, fel Tŷ Pride, a chasglu'r arferion a'r egwyddorion gorau mewn perthynas â digartrefedd pobl LHDTTC+ i'w rhannu ag awdurdodau lleol.                                   |
| 31. | Gweithio gyda Llywodraeth y DU i annog dull adnabod sensitif i bobl LHDTTC+ gydol eu cais am loches drwy wneud diwygiadau i'r ffurflen ASF1 ac i'r canllawiau i weithwyr achos lloches.                     |
| 32. | Gweithio gyda Llywodraeth y DU a Clearsprings Ready Homes i annog datblygu eiddo lloches yng Nghymru sydd gyfer pobl LHDTTC+ yn unig, gan weithredu ystyriaethau diogelu a llesiant angenrheidiol.          |
| 33. | Gweithio gyda gwasanaethau cymorth lloches a ffoaduriaid arbenigol ar gyfer pobl LHDTTC+, fel Glitter Cymru a Hoops & Loops, i nodi gwelliannau i bolisiâu perthnasol a chefnogi cynaliadwyedd sefydliadol. |
| 34. | Sicrhau bod ein hymrwymadau i wneud Cymru yn Genedl Noddfa yn cynnwys pobl LHDTTC+.   |
| 35. | Sicrhau bod cymorth iechyd meddwl priodol yn cael ei roi i ffoaduriaid a cheiswyr lloches LHDTTC+.  |

## Gwella Canlyniadau Iechyd

Nododd y gwaith allgymorth a wnaeth lywio'r Camau Gweithredu yn y Cynllun hwn fod pobl LHDTTC+ yng Nghymru yn parhau i wynebu cryn anghydraddoldebau wrth gael gafael ar wasanaethau iechyd a gofal cymdeithasol. Nododd arolwg y Panel Arbenigwyr, er bod gwelliannau yn cael eu gwneud, bod 85 y cant o'r ymatebwyr wedi nodi na fu unrhyw effaith (69 y cant) neu y cafwyd effaith gadarnhaol (16 y cant) wrth ddatgelu eu hunaniaeth LHDTTC+ i staff gofal iechyd. Er hyn, profir achosion o wahaniaethu o hyd ar gyfradd annerbyniol. Dywedodd 22 y cant o'r bobl a ymatebodd i'r arolwg eu bod wedi cael cwestiynau amhriodol, neu y dangoswyd chwilfrydedd amhriodol, wrth iddynt ddatgelu eu cyfeiriadedd rhywiol neu eu hunaniaeth rhywedd. Roedd 18 y cant yn teimlo bod eu hanghenion gofal iechyd penodol wedi cael eu hanwybyddu neu heb eu hystyried, a nododd 12 y cant eu bod wedi osgoi cael triniaeth neu wedi osgoi defnyddio gwasanaethau am eu bod yn ofni cael eu gwahaniaethu neu gael ymatebion anoddefgar. Mae ymchwil hefyd yn awgrymu bod pobl LHDTTC+ yn wynebu anghydraddoldeb penodol wrth gael gofal cymdeithasol<sup>9</sup>. Mae adroddiadau blaenorol yn dangos fod pobl anabl LHDTTC+ yn parhau i wynebu achosion o wahaniaethu ar sail eu cyfeiriadedd rhywiol a/neu eu hunaniaeth rhywedd gan y rhai sy'n darparu gofal personol<sup>10</sup>. Yn ôl ymchwil ar brofiadau pobl hŷn LHDTTC+ mewn cartrefi gofal, nodir yn aml nad yw anghenion pobl hŷn yn cael eu diwallu bob amser<sup>11</sup>. Mae pob un o'r canfyddiadau hyn yn dangos bod rhaid gwneud gwaith i sicrhau bod pobl LHDTTC+ yng Nghymru yn teimlo'n ddiogel ac yn ddigon hyderus i droi at y system iechyd a gofal cymdeithasol. Hefyd mae sawl maes lle ceir effaith anghymesur ar bobl LHDTTC+, fel iselder a theimladau hunanladdol, cyflyrau iechyd rhywiol a'r defnydd o sylweddau<sup>12</sup>. Rhaid inni gymryd camau i ddeall a lliniaru'r anghyfartaledd hwn yn well.

| <b>Camau Gweithredu</b> |  |
|-------------------------|--|
| 36.                     | Dylai Llywodraeth Cymru ymgymryd â gwaith iechyd y cyhoedd sydd wedi'i dargedu er mwyn mynd i'r afael â materion lle mae pobl LHDTTC+ yn wynebu risg anghymesur, gan gynnwys y defnydd o sylweddau, iechyd rhywiol ac iechyd meddwl. |
| 37.                     | Parhau i sicrhau bod gwasanaethau mamolaeth a ffrwythlondeb yn hygyrch ac yn syml i bobl LHDTTC+ eu defnyddio.   |
| 38.                     | Gweithio ochr yn ochr â GIG Cymru, Gofal Cymdeithasol Cymru a darparwyr a chomisiynwyr gofal cymdeithasol i sefydlu hyfforddiant cynhwysfawr a   |

<sup>9</sup> Iechyd a Gofal Cymdeithasol a Chymunedau LHDTTC, Tŷ'r Cyffredin, y Pwyllgor Menywod a Chydraddoldeb - <https://publications.parliament.uk/pa/cm201919/cmselect/cmwomeq/94/94.pdf>

<sup>10</sup> LGBTQI+\* Pobl Anabl a chymorth gofal cymdeithasol hunangyfeiriedig <https://www.sscr.nihr.ac.uk/PDF/Findings/Rf77.pdf>

<sup>11</sup> Datblygu cartrefi gofal cynhwysol i bobl hŷn sy'n nodi eu bod yn lesbiaidd, hoyw, deurywiol a thraws (LHDTTC+) <https://www.bristol.ac.uk/policybristol/policy-briefings/inclusive-care-homes/>

<sup>12</sup> Stonewall, 2018, LGBTQ in Britain: Health Report: <https://www.stonewall.org.uk/LGBTQ-britain-health>



| <b>Camau Gweithredu</b> |  |
|-------------------------|--|
|                         | pharhaus i bob aelod o staff mewn perthynas ag iechyd a gofal cymdeithasol pobl LHDTC+ yn benodol. Dylai Arolygiaeth Iechyd Cymru ac Arolygiaeth Gofal Cymru weithredu i sicrhau y cydymffurfir ag arferion da   |
| 39.                     | Ystyried anghenion pobl LHDTC+, gan gynnwys pobl hŷn a phobl iau LHDTC+, yn y broses o adolygu ein codau ymarfer a'n canllawiau statudol o dan Ddeddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014, i gysylltu â hyfforddiant proffesiynol priodol. |
| 40.                     | Sicrhau bod unrhyw adolygiad o wasanaethau iechyd meddwl yn y dyfodol yn ystyried eu ffocws a'u heffeithiolrwydd ar gyfer pobl LHDTC+, gan gynnwys pobl ifanc.   |
| 41.                     | Cyhoeddi Cynllun Gweithredu newydd ar HIV ac Iechyd Rhywiol, a gweithredu arno, sy'n cynnwys canolbwyntio ar wasanaethau ataliol, addysg a darparu gwasanaeth cyfartal.  |
| 42.                     | Cefnogi'r newid i defeddygaeth ar gyfer apwyntiadau iechyd rhywiol a chynnal profion drwy'r post pan fo modd a phan fo'r claf yn dymuno hynny.   |
| 43.                     | Ymrwymo i adolygu'r llwybr Hunaniaeth Rhywedd ar gyfer plant a phobl ifanc yng Nghymru yn dilyn yr adolygiad yn GIG Lloegr.  |
| 44.                     | Parhau i ddatblygu Gwasanaeth Rhywedd Cymru, lle bydd meddygon teulu yn gallu cychwyn therapi hormonau fel rhan o'r llwybr oedolion.   |
| 45.                     | Gweithio gyda Gwasanaeth Rhywedd Cymru i fynd i'r afael â chanfyddiad y cyhoedd sy'n credu bod gwahaniaethau yn y ffordd y mae pobl anneuaid yn cael gafael ar wasanaethau hunaniaeth rhywedd.   |
| 46.                     | Ystyried cynnal adolygiad o gofnodion meddygol pobl draws, ar draws GIG Cymru, dan arweiniad cymunedau traws, er mwyn hybu ymgysylltiad pobl draws â gwasanaethau gofal iechyd, preifatrwydd, ac ansawdd gofal iechyd.                                   |

## Addysg

Yn 2017, edrychodd y Panel Arbenigol ar Addysg Rhyw a Chydberthynas ar ystod eang o waith ymchwil cenedlaethol a rhyngwladol<sup>13</sup>. Un o ganfyddiadau allweddol y panel oedd bod bwlch rhwng profiadau bywyd plant a phobl ifanc o gydberthynas a rhywioldeb (ar-lein ac all-lein). Gan gyfeirio at arolwg Stonewall Cymru, a nododd nad oes digon o drafodaethau mewn amgylcheddau addysgol o hyd am gyfeiriadedd rhywiol a/neu hunaniaeth rhywedd, gyda 44 y cant o'r rhai mewn addysg yn y tair blynedd diwethaf yn nodi na chafodd yr un o'r ddau beth hyn eu trafod. Daeth y panel arbenigwyr i'r casgliad mai anaml iawn y mae Addysg Rhyw a Chydberthynas yn cynnwys pobl LHDTC+, a bod y ddarpariaeth sydd ar gael yn rhy heteronormadol. Mae'r canfyddiadau hyn wedi'u hategu gan archwiliadau gwerthusol y mae athrawon wedi'u cynnal gyda'u myfyrwyr mewn rhaglen dysgu proffesiynol ddiweddar gydag ysgolion cynradd, ysgolion uwchradd ac ysgolion arbennig<sup>14</sup> – arferion a gefnogir gan yr ymrwymiad sydd wedi'i ddatgan a'r addewid y caiff canllawiau statudol newydd eu llunio ar gyfer ysgolion, lle mae'n egwyddor sylfaenol i gynnwys pobl LHDTC+.<sup>15</sup>

Mae newid ar y gweill: roedd y bobl LHDTC+ a gymerodd ran yng ngwaith allgymorth Stonewall Cymru yn obeithiol ar y cyfan am y cyfleoedd yn y cwricwlwm newydd i Gymru<sup>16</sup>, yn benodol yr ymrwymiad i addysgu Addysg Rhyw a Chydberthynas gynhwysol i bob dysgwr (3-16 oed), er hyn codwyd pryderon ynghylch rhoi'r ymrwymadau ar waith fel rhan o gwricwlwm gwirioneddol gynhwysol.

| <b>Camau Gweithredu</b> |  |
|-------------------------|--|
| 47.                     | Darparu buddsoddiad strategol a chynhwysfawr mewn dysgu proffesiynol a hyfforddiant ar gynllunio cwricwlwm cwbl gynhwysol ar gyfer pobl LHDTC+. Dylai hyn gynnwys Addysg Rhyw a Chydberthynas sy'n cynnwys pobl LHDTC+ i bawb. |
| 48.                     | Sicrhau bod rhaid i hyfforddiant hefyd rymuso gweithwyr proffesiynol i roi digon o gefnogaeth i bobl ifanc LHDTC+ ac i fynd i'r afael â bwlio homoffobig, deuffobig a thrawsffobig, drwy weithredu ar sail hawliau.            |
| 49.                     | Hyrwyddo adnoddau i helpu teuluoedd pobl ifanc LHDTC+ drwy'r ymgyrch Magu Plant. Rhowch amser iddo.  |
| 50.                     | Darparu canllawiau traws cenedlaethol statudol i ysgolion ac awdurdodau lleol.   |

<sup>13</sup> Renold, E. a McGeeney, E. 2017a. Dyfodol y Cwricwlwm Addysg Rhyw a Pherthnasoedd yng Nghymru. Cymru: Llywodraeth Cymru. A Renold, E. a McGeeney, E. 2017b. Informing the Future of the Sex and Relationships Education Curriculum in Wales. Caerdydd: Prifysgol Caerdydd.

<sup>14</sup> Renold, E.J., Ashton, M. a McGeeney, E. (2020) *CRUSH: Trwsffurfio Addysg Cydberthynas a Rhywioldeb*. Caerdydd: Prifysgol Caerdydd. Ar gael ar-lein yn: <https://agendaarlein.co.uk/crush/>

<sup>15</sup> Llywodraeth Cymru. 2020a. *Themâu trawsgwricwlaidd ar gyfer cynllunio eich cwricwlwm*. Hwb. [Ar-lein] Ar gael yn: <https://hwb.gov.wales/cwricwlwm-i-gymru/cynllunio-eich-cwricwlwm/themau-trawsgwricwlaidd-ar-gyfer-cynllunio-eich-cwricwlwm>

<sup>16</sup> Llywodraeth Cymru, Ar gael Ar-lein yn: <https://hwb.gov.wales/cwricwlwm-i-gymru>

**Camau Gweithredu**

|     |   |
|-----|---|
| 51. | Parhau i fuddsoddi mewn rhaglenni atal troseddau casineb ledled Cymru.  |
| 52. | Gweithio gyda chyd-weithwyr a phrifysgolion yng Nghymru i sicrhau bod amgylcheddau sy'n ystyriol o bobl LHDTC+ ar gyfer dysgwyr a staff, gan nodi arferion da ac adeiladu arnynt. |
| 53. | Ystyried opsiynau i dargedu cyllid i ymchwilio i brofiadau pobl LHDTC+ yng Nghymru.   |

## Y gweithle

Er i gynnydd gael ei wneud wrth sicrhau bod gweithleoedd yn fwy cyfartal, mae hyn yn dal i ddibynnu ar y math o ddiwydiant a'r lefel o ymrwymiad a ddangosir gan y cyflogwr. Mae mwyfwy o sefydliadau yn ymfalchïo yn eu hymrwymiad i staff, cwsmeriaid a defnyddwyr gwasanaethau sy'n bobl LHDTC+. Eto i gyd, mae cryn dipyn o wahaniaethu yn y gweithle o hyd, sy'n galw am weithredu ac ymrwymiad gan y Llywodraeth i sbarduno newid. Nododd y gwaith allgymorth, er i 45 y cant o'r bobl nodi mai dim ond ymateb cadarnhaol a gafwyd yn y gweithle pan wnaethant ddweud eu bod yn LHDTC+, nododd 24 y cant fod eu hunaniaeth LHDTC+ wedi cael ei datgelu yn y gweithle heb eu caniatâd, a nododd 10 y cant eu bod wedi profi cam-drin geiriol. Hefyd, nododd aelodau'r grwpiau ffocws eu bod yn profi anghydraddoldebau a gwahaniaethu yn y gweithle, yn enwedig y rhai mewn swyddi mwy anwadal. Mae gweithleoedd yng Nghymru wedi gwella, ond mae angen inni fynd ymhellach er mwyn cael gwared ar achosion o wahaniaethu a grymuso pawb sydd mewn swydd i fod yn nhw eu hunain, yn ogystal â hyrwyddo'r effaith gadarnhaol y gall amrywiaeth ei chael mewn pob math o sefydliad.

|     | <b>Camau Gweithredu</b>   |
|-----|---|
| 54. | Gyda chymorth gan Undebau Llafur, creu dull mwy cyfannol o lunio adnoddau hyfforddiant i weithleoedd preifat fel eu bod yn gwneud rhagor i gynnwys pobl LHDTC+.   |
| 55. | Darparu adnodd sy'n nodi mesurau i ddiogelu cyflogaeth, yn ogystal â chyfrifoldebau cyflogwyr o ran cynnal hawliau staff traws sy'n gweithio yn y sector preifat. |
| 56. | Hybu pwysigrwydd casglu data ar amrywiaeth i fusnesau yng Nghymru.  |

## Ymateb i COVID-19

Fel y dangosodd ymchwil ddiweddar gan Goleg Prifysgol Llundain a Phrifysgol Sussex i fywydau pobl LHDTTC+ ym Mhrydain yn ystod y pandemig, mae'r cyfyngiadau wedi creu argyfwng iechyd meddwl ymhlith y gymuned LHDTTC+, gyda 69 y cant o ymatebwyr yn profi symptomau iselder, gan gynyddu i 90 y cant o'r rhai a oedd wedi profi homoffobia neu drawsffobia<sup>17</sup>. Ategir y dystiolaeth hon gan ymchwil bellach i effaith anghymesur y pandemig ar bobl LHDTTC+ a gynhaliwyd gan Swyddfa Uchel Gomisiynydd Hawliau Dynol y Cenhedloedd Unedig,<sup>18</sup> y Sefydliad LHDTTC+<sup>19</sup>, a Human Rights Watch<sup>20</sup>. Atgyfnerthir y canfyddiadau hyn gan ganlyniadau arolwg Stonewall Cymru a gomisiynwyd gan Lywodraeth Cymru, gyda llawer o bobl LHDTTC+ yng Nghymru yn adrodd am brofiadau o unigedd o ganlyniad i Covid-19. Mae'r ynysigrwydd cymdeithasol hwn ynghyd â'r ffaith bod rhai yn cael eu gorfodi'n ôl i aelwydydd nad ydynt yn gefnogol neu sy'n elyniaethus yn agored, yn amlygu effaith amlwg coronafeirws ar bobl LHDTTC+, a'r angen i gydnabod ac ystyried eu profiadau wrth ymateb i'r argyfwng. Ni wnaeth yr ymchwil a amlygir yma ganiatáu ar gyfer dadansoddiad croestoriadol; nid oedd maint y samplau yn ddigon cadarn i ddadansoddi ymhellach ddata gan bobl LHDTTC+ a chanddynt un neu ragor o nodweddion gwarchoddedig. Mae tystiolaeth yn awgrymu bod effaith bosibl Covid-19 hyd yn oed yn fwy amlwg ymysg grwpiau LHDTTC+ penodol fel pobl LHDTTC+ hŷn, pobl LHDTTC+ ifanc, pobl LHDTTC+ Ddu, Asiaidd ac Ethnig Leiafrifol, a phobl LHDTTC+ anabl<sup>21, 22, 23, 24</sup>.

<sup>17</sup> The mental health and experiences of discrimination of LGBTQ+ people during the Covid-19 pandemic: Initial findings from the Queerantime Study: <https://www.medrxiv.org/content/10.1101/2020.08.03.20167403v1>, 2020

<sup>18</sup> Hawliau Dynol y Cenhedloedd Unedig – Swyddfa'r Uchel Gomisiynydd, 2020, Report on the impact of the Covid-19 pandemic on the human rights of LGBT persons, Available Online at:

<https://www.ohchr.org/EN/Issues/SexualOrientationGender/Pages/COVID19Report.aspx>

<sup>19</sup> Sefydliad LHDT, 2020, Hidden Figures: The impact of the Covid-19 pandemic on LGBT communities in the UK, Available Online at: <https://s3-eu-west-1.amazonaws.com/lgbt-website-media/Files/7a01b983-b54b-4dd3-84b2-0f2ecd72be52/Hidden%2520Figures-%2520The%2520Impact%2520of%2520the%2520Covid-19%2520Pandemic%2520on%2520LGBT%2520Communities.pdf>

<sup>20</sup> Graeme Reid, 2020, Human Rights Watch: LGBTQ Inequality and Vulnerability in the Pandemic, Ar gael Ar-lein yn: <https://www.hrw.org/news/2020/06/18/lgbtq-inequality-and-vulnerability-pandemic>

<sup>21</sup> Phillips, C. (2021). How covid-19 has exacerbated LGBTQ+ health inequalities.

<https://www.bmj.com/content/bmj/372/bmj.m4828.full.pdf>

<sup>22</sup> Ruprecht, MM; Wang, X; Johnson, AK; et al. (2020). Evidence of Social and Structural COVID-19 Disparities by Sexual Orientation, Gender Identity, and Race/Ethnicity in an Urban Environment.

<https://link.springer.com/article/10.1007/s11524-020-00497-9>

<sup>23</sup> Gato, J; Barrientos, J; Tasker, F; et al. (2021). Psychosocial Effects of the COVID-19 Pandemic and Mental Health among LGBTQ+ Young Adults: A Cross-Cultural Comparison across Six Nations.

<https://www.tandfonline.com/doi/full/10.1080/00918369.2020.1868186>

<sup>24</sup> LGBT Foundation. (2020). Hidden Figures: The Impact of the Covid-19 Pandemic on LGBT Communities in the UK. <https://s3-eu-west-1.amazonaws.com/lgbt-website-media/Files/7a01b983-b54b-4dd3-84b2-0f2ecd72be52/Hidden%2520Figures-%2520The%2520Impact%2520of%2520the%2520Covid-19%2520Pandemic%2520on%2520LGBT%2520Communities.pdf>

**Camau Gweithredu**

|     |   |
|-----|---|
| 57. | Ystyried profiadau penodol pobl LHDTC+ wrth i'r cyfyngiadau gael eu llacio yng Nghymru ac wrth gynllunio'r broses adfer.          |
| 58. | Dylai Llywodraeth Cymru ystyried cynnal ymchwiliad trwyadl i'r ffordd y mae'r pandemig wedi effeithio ar bobl LHDTC+ yng Nghymru. |